YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL
Pennaeth/Head:
Mr Matthew H T Evans
029 2033 3090
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk
www.glantaf.cymru

19 Ebrill 2024

Annwyl Riant / Warcheidwad,

**HMS:** Mae **Dydd Gwener, Mai 3 yn ddiwrnod HMS yn yr ysgol,** felly does dim ysgol i ddisgyblion.

**Ffonau Symudol:** Hoffem ddiolch i chi am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad gyda'n hymgyrch Ffonau Symudol ers gwyliau'r Pasg. Mae'r sefyllfa yn yr ysgol wedi gwella llawer iawn gyda bron pob un disgybl yn awr yn cadw'i ffôn yn y bag yn ystod y dydd. Gofynnwn yn garedig i chi barhau i'n cefnogi gyda hyn gan drafod gyda'ch plentyn y buddion o fod heb ffôn yn ystod y dydd ysgol. I'ch atgoffa, ni ddylai unrhyw ddisgybl **dynnu ffôn allan yn ystod gwers nac ar y coridorau.** Os gwelir disgybl efo ffôn allan, bydd athro yn holi am ei chymryd a gall y disgybl gasglu'r ffôn ar ddiwedd y dydd, a bydd neges yn mynd allan ar Classcharts. Ond os nad yw disgybl yn fodlon rhoi'r ffôn i athro, yna nodir hyn ar Classcharts a bydd cosb o aros ar ataliad ar ôl ysgol.

**Sbwriel:** Yn yr un modd, hoffem ddiolch i bawb am eu cydweithrediad wrth ddilyn y drefn newydd o ddidoli sbwriel. Mae biniau gwahanol i wastraff bwyd, gwastraff cyffredinol, papur a chardfwrdd, tuniau a phlastigau – ac mae ymateb disgyblion wedi bod yn ardderchog i'r ymgyrch hon i wella ein hamgylchedd.

**Arholiadau Mewnol:** Cynhelir arholiadau mewnol CA3 yn cael eu cynnal yn y gwersi (Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Addysg Grefyddol) ar y dyddiadau isod:
Bl. 7 – Mai 7 – 13; Bl. 8-9 - Mai 13 – 21

**Diwrnodau Gadael ac Arholiadau Allanol Bl.11 12, 13.** Nodyn atgoffa o ddiwrnodau olaf :
Bl. 11 - Mercher, Mai 8; Bl. 12 – Gwener, Mai 10 a Bl. 13, Gwener, Mai 17. Cynhelir gwasanaeth ymadael disgyblion Bl. 13 am 10.00am ar fore Gwener, Mai 17 ac mae croeso i rieni i ymuno gyda ni i ffarwelio.

**Gweminar gan Wasanaeth Mewn-Gymorth i ysgolion i rieni 10 ac 11:** Gan fod yr arholiadau ar y gorwel, dyma gyfle i chi a'ch plentyn i wylio fideo i gefnogi plant yn ystod arholiadau : [Parent Workshop | Supporting your child during exams (youtube.com)]

**Dyfais un i un:** Mae'r ysgol yn falch i nodi byddwn yn parhau gyda ein cynllun i gynnig dyfais electronig chromelyfr i bob disgybl Bl 7 presennol (Bl 8 Medi 2024) erbyn Rhagfyr 2024. Oherwydd cyfyngiadau cyllidol, mae'r cynllun hwn yn dod i ben o fewn Cyngor Sir Caerdydd, ond yma yng Nglantaf rydym yn gobeithio gall y cynllun barhau gyda eich cymorth chi fel rhieni. Bydd llythyr i rieni Bl 7 yn ystod yr wythnosau nesaf a bydd cyfarfod arbennig arlein **i rieni Bl 7 ar Nos Lun 20 Mai am 5pm** i egluro'r cynllun newydd.

**Ymwelwyr o Ffrainc:** Bore dydd Mawrth, croesawyd disgyblion ac athrawon o Goleg Saint-Gilles yn y Vendée. Treuliodd ein hymwelwyr y bore yn dysgu am fywyd mewn ysgol cyfrwng Cymraeg a dod i adnabod rhai o'n disgyblion blynyddoedd 9 a 10. Cafwyd perfformiad gwych gan y côr merched a chawsant eu swyno wrth glywed hanes y Gymraeg mewn addysg. Mwynhaodd Bl. 9 ddod i adnabod



eu cydwladwyr FFrengig trwy weithgareddau Addysg Gorfforol, tra wynebodd Bl. 10 yr her o gyfathrebu trwy Ffrangeg a Saesneg er mwyn creu Tŵr Eiffel allan o falws melys a spageti (gyda graddau amrywiol o lwyddiant!). Mwynhaodd ein disgyblion y cyfle i ddefnyddio eu sgiliau Ffrangeg mewn sefyllfaoedd go iawn ..... à la prochaine!



**Profion Cenedlaethol – Bl. 7-9:** Bydd y profion cenedlaethol yn y Gymraeg, Saesneg, Rhifedd Gweithdrefnol, Rhifedd Rhesymu yn cael eu cynnal yn ystod y 3 wythnos ar ôl hanner tymor. Bydd yr amserlen yn cael ei hanfon ynghanol mis Mai.

**Llwyddiannau:** Llongyfarchiadau enfawr i dimau rygbi 7 bob ochr Merched Dan 16, Bechgyn Bl11 a Bechgyn Dan 18 am ennill yng nghystadlaethau'r Urdd yr wythnos hon. Llongyfarchiadau mawr hefyd i dimau merched pêl-droed yr ysgol – Bl. 7, 8, 9, Dan 16 a thimau bechgyn Blynyddoedd 7, 10, 11 a Dan 18 am gyrraedd rownd derfynol Cwpan Caerdydd, Pob lwc ar gyfer y gemau terfynol!

**Gemau Terfynol Pel-droed: Cwpan y Sir a Chwpan Cymru:** Bydd noson fawr i dimau pêl-droed dan 16 a dan 18 yr ysgol - dwy gêm yn dilyn ei gilydd, **Nos Lun 29 Ebrill am 6pm a 7.30pm v Ysgol St Cyres (dan16) ac Ysgol Plasmawr (dan18) yn Ocean Park, Sblott.** Dewch i gefnogi! Llongyfarchiadau yn ogystal i dîm bechgyn dan18 yr ysgol a fydd yn chwarae yn rownd derfynol Cwpan Cymru ar ddydd Gwener, Mai 3 a,m 1.45pm ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, Cyncoed am 1.45yp. Gan ei bod yn ddiwrnod HMS ac nid yw'r disgyblion yn yr ysgol, gofynnwn yn daer i bawb geisio dod i gefnogi . Bydd Merched Dan 15 hefyd yn chwarae yn rownd derfynol Cwpan Cymru yng Nghroesoswallt ar Fai 11 am 12.30yp. Pob dymuniad da i'r holl dimoedd!





**Digwyddiadau y tymor:**

| | |
|---|---|
| Ebrill 22 | Bore UCAS i Fl. 12 |
| Ebrill 29 | Rownd derfynol Cwpan Cymru – Pêl-droed am 6pm & 7.30pm |
| **Mai 3** | **Diwrnod HMS: ysgol ar gau i ddisgyblion** |
| **Mai 6** | **Gwyl Fai** |
| Mai 8 | Diwrnod ymadael Bl. 11 |
| Mai 9 | Noson Rhieni Bl. 7 yn yr ysgol 3.15 – 6.30pm |
| Mai 9 | Arholiadau TGAU yn cychwyn |
| Mai 10 | Diwrnod ymadael Bl. 12 |
| Mai 12 | Taith i Wembley |
| Mai 13 | Arholiadau UG/Safon Uwch yn cychwyn |
| Mai 14 – 17 | Taith Bl. 7 i Barc Treftadaeth y Rhondda |
| Mai 17 | Diwrnod gadael Bl. 13 / Gwasanaeth Ymadael Bl. 13 am 10am |
| Mai 20 | Noson Rieni *dyfais un i un* ar gyfer Bl 7 (Rhithiol) am 5pm (Teams) |
| Mai 25 | Taith Bêl-droed i Barcelona |
| Mai 27-31 | Hanner Tymor / Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Maldwyn |

Yn gywir,

Meleri Wyn Jones
Pennaeth Cynorthwyol
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf



*Hystings Prif Swyddogion 2024-25*